

WJEC AS/A2 Geography Level 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â chipolwg eang ond addysgiadol ar ein planed a sut mae'n gweithio

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn daearyddiaeth ffisegol a dynol
- ... Oes gennych ddiddordeb mewn cadwraeth a dyfodol ein planed
- ... Ydych yn gweithio'n galed ac yn rhagweithiol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Yn y flwyddyn gyntaf ar Lefel UG, byddwch yn astudio 2 uned:

Uned 1 Tirluniau newidiol (A: Tirluniau arfordirol, B: Peryglon tectonig)



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Uned 2 Llefydd newidiol (A: Llefydd newidiol, B: Ymchwiliad gwaith maes mewn daearyddiaeth ffisegol a dynol)

Yn yr ail flwyddyn byddwch yn astudio 3 uned a fydd yn arwain at ennill y Lefel U llawn:

Uned 3 Systemau byd-eang a llywodraethu byd-eang (A: Systemau byd-eang, B: Llywodraethu byd-eang - newid a heriau, C: heriau'r 21ain ganrif)

Uned 4 Themâu cyfoes mewn daearyddiaeth (A: Peryglon tectonig, B: Twf a heriau economaidd yn Tsieina, heriau a phenblethau ynni)

Uned 5 Ymchwiliad annibynnol (asesiad 3000-4000 gair heb arholiad)

Mae'r unedau hyn yn mynd i'r afael ag ystod eang o bynciau, sy'n gymhellol ond heriol, ac maent yn cyd-fynd yn dda â chysiau Lefel U eraill yn y Dyniaethau, leithoedd neu Wyddorau.

Mae'r cysiau Lefel UG ac U yn darparu cyfleoedd gwaith maes neu ymchwil trylwyr. Dylai'r cwrs eich cyfarparu chi ag ystod o sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth, sy'n ddefnyddiol mewn cyflogaeth neu addysg uwch.

Dylai myfyrwyr gwblhau'r cwrs UG yn llwyddiannus cyn ymgymryd â Lefel U llawn. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr Lefel A yn parhau i addysg uwch, tra bo eraill o'r farn bod Daearyddiaeth yn hynod ddefnyddiol ar gyfer cyflogaeth. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Daearyddiaeth Lefel UG
Daearyddiaeth Lefel U
Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, Mathemateg/Rhifedd Mathemateg, a Gradd B mewn Daearyddiaeth.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae nifer o gyrsiau prifysgol ar gael sy'n ymwneud ag astudiaethau daearyddol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gost teithio ymweliadau addysgol a theithiau maes.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

